WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1812A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Charlotte Owen a Mike Jones gyda rheolaeth rhaglen gan Non Jenkins dan gyfarwyddyd Huw Rees a Richard Harries.

# Cynnwys

Er gwaethaf hanes o orwariant gan wasanaethau, mae'r Cyngor wedi cymryd camau'n ddiweddar i gynyddu lefel ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac mae'n datblygu strategaeth ariannol fwy cynaliadwy.


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor yn datblygu strategaeth ariannol fwy cynaliadwy ond mae'n rhy gynnar i asesu a fydd hon yn cryfhau cydnerthedd ariannol dros y tymor canolig 7

Mae gan y Cyngor hanes diweddar o orwariant yn erbyn ei gyllideb ond mae swm y gorwariannau diwedd blwyddyn yn gostwng 9

Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio ond mae'n newid ei ddull i adnabod arbedion hirdymor mwy cynaliadwy 11

Mae cronfa gyffredinol y Cyngor yn gyson â'i strategaeth cronfeydd wrth gefn ac mae'r Cyngor yn cymryd camau i gynyddu lefel ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn dilyn defnydd anghynaliadwy mewn blynyddoedd blaenorol 12

Mae'r dreth gyngor yn rhoi cyfrif am gyfran gymharol fach o incwm y Cyngor ond mae'r Cyngor yn archwilio ffyrdd o wella'i gyfraddau casglu yn ystod y flwyddyn 15

Nid oes gan y Cyngor lefelau benthyca uchel ac nid oes ganddo unrhyw fuddsoddiadau masnachol ar hyn o bryd, ond wrth iddo archwilio'i ddull yn y dyfodol lle mae gweithgarwch masnachol yn y cwestiwn dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn ystyried ac yn rheoli'r risgiau cysylltiedig 16

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Roedd y prosiect yn ceisio asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol cynghorau yn y tymor byr a chanolig.

2 Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu 'dangosyddion' ariannol o sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â'r canlynol:

- Perfformiad yn erbyn y gyllideb
- Cyflawni cynlluniau arbedion
- Defnyddio cronfeydd wrth gefn
- Y dreth gyngor
- Benthyca

#### Arddangosyn 1: ynglŷn â'r Cyngor

Mae'r arddangosyn hwn yn nodi peth gwybodaeth gefndir am gyllideb refeniw net y Cyngor, nifer y staff y mae'n eu cyflogi a gwerth ei asedau sefydlog



**Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn £143.9m[1]**



**Mae'r Cyngor yn cyflogi tua 3500 o bobl [2]**




**Roedd asedau sefydlog y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £265m[3]**

3 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn am ein bod wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau diweddar rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol bod adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn lleihau ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau.

[1] Ffynhonnell: Adroddiad ar Gyllideb Refeniw 2019/20 i'r Cyngor ym mis Chwefror 2019
[2] Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
[3] Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2018-19

Arddangosyn 2: ffynonellau refeniw'r Cyngor

Mae'r siart cylch isod yn dangos faint o arian gafodd y Cyngor o wahanol ffynonellau ariannu yn ystod 2018-19[4]




4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2019 a mis Ionawr 2020.

## Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: **Er gwaethaf hanes o orwariant gan wasanaethau, mae'r Cyngor wedi cymryd camau'n ddiweddar i gynyddu lefel ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac mae'n datblygu strategaeth ariannol fwy cynaliadwy.**

Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae'r Cyngor yn datblygu strategaeth ariannol fwy cynaliadwy ond mae'n rhy gynnar i asesu a fydd hon yn cryfhau cydnerthedd ariannol dros y tymor canolig
- Mae gan y Cyngor hanes diweddar o orwariant yn erbyn ei gyllideb ond mae swm y gorwariannau diwedd blwyddyn yn gostwng
- Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio ond mae'n newid ei ddull i adnabod arbedion hirdymor mwy cynaliadwy

[4] Ffynhonnell: Hunanasesiad y Cyngor

- Mae cronfa gyffredinol y Cyngor yn gyson â'i strategaeth cronfeydd wrth gefn ac mae'r Cyngor yn cymryd camau i gynyddu lefel ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn dilyn defnydd anghynaliadwy mewn blynyddoedd blaenorol
- Mae'r dreth gyngor yn rhoi cyfrif am gyfran gymharol fach o incwm y Cyngor ond mae'r Cyngor yn archwilio ffyrdd o wella'i gyfraddau casglu yn ystod y flwyddyn
- Nid oes gan y Cyngor lefelau benthyca uchel ac nid oes ganddo unrhyw fuddsoddiadau masnachol ar hyn o bryd, ond wrth iddo archwilio'i ddull yn y dyfodol lle mae gweithgarwch masnachol yn y cwestiwn dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn ystyried ac yn rheoli'r risgiau cysylltiedig.

# Adroddiad manwl

## Er gwaethaf hanes o orwariant gan wasanaethau, mae'r Cyngor wedi cymryd camau'n ddiweddar i gynyddu lefel ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac mae'n datblygu strategaeth ariannol fwy cynaliadwy

### Mae'r Cyngor yn datblygu strategaeth ariannol fwy cynaliadwy ond mae'n rhy gynnar i asesu a fydd hon yn cryfhau cydnerthedd ariannol dros y tymor canolig

#### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

6 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod y lefel debygol o gyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau o ran cyllid a fu'n ddiweddar ac a ragwelir ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig nodi sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn enwedig sut y bydd yn llenwi bylchau a ragwelir yn y cyllid.

#### Yr hyn a ganfuom


7 Canfuom fod y Cyngor yn datblygu strategaeth ariannol fwy cynaliadwy ond mae'n rhy gynnar i asesu a fydd hon yn cryfhau cydnerthedd ariannol dros y tymor canolig.

8 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae gan y Cyngor Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a gaiff ei diwygio'n flynyddol. Cafodd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gyfredol ei diweddaru ym mis Rhagfyr 2019 ac mae'n darparu crynodeb lefel uchel o'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor rhwng 2020-21 a 2024-25. Dros y cyfnod hwn, mae'r Cyngor yn rhagfynegi diffyg ar y cyfan o £16.2m.
- Mae Arddangosyn 3 isod yn nodi'r bwlch a ragamcanir yng nghyllid y Cyngor rhwng 2019 a 2023, gan dybio y ceir setliadau arian gwastad gan Lywodraeth Cymru.

Arddangosyn 3: bwlch o ran cyllid a ragamcanir

Mae'r graff canlynol yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer eleni, a'r tair blynedd ganlynol.[5]




- Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn seiliedig ar ystod o dybiaethau rhesymol.
- Mae setliad Grant Cynnal Refeniw dros dro'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 yn 3.9%, sy'n cyfateb i gynnydd mewn arian parod o £4.3m o'i gymharu â setliad 2019-20. Fodd bynnag, mae peth o'r cynnydd hwn yn cynnwys symiau a oedd yn cael eu darparu'n flaenorol gan Lywodraeth Cymru, megis grantiau penodol ar gyfer cyflog a phensiynau athrawon a'r gwasanaethau cymdeithasol.
- Nod strategaeth Pontio'r Bwlch y Cyngor yw mabwysiadu dull mwy trawsnewidiol a chynaliadwy lle mae cynllunio ariannol yn y cwestiwn.
- Mae'r Cyngor yn draddodiadol wedi cau'r bwlch yn y gyllideb trwy ystod o Brosiectau Effeithlonrwydd Ariannol (PEA), sydd wedi bod yn cael eu hadnabod yn flynyddol. Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'r Cyngor yn amcanu at gau'r mwyafrif o'r bwlch yn ei gyllideb trwy arbedion a adnabyddir fel rhan o'r rhaglen Pontio'r Bwlch. Hyd yma, mae'r rhaglen wedi adnabod rhwng £5.4m a £7.9m o arbedion dros gyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, a disgwylir arbedion pellach wrth i'r rhaglen fynd rhagddi.

[5] Ffynhonnell: bwlch o ran cyllid yn 2019-20: Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2019/2020 – 2021/2022; bwlch o ran cyllid yn 2020-21 – 2022-23: Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2020/21 – 2024/25 (cyn y cyhoeddiad ynghylch setliad dros dro llywodraeth leol).

- Mae setliad dros dro llywodraeth leol wedi cau'r bwlch a ragamcanir yng nghyllid y Cyngor ar gyfer 2020-21 ac wedi ei alluogi i ddyrannu arian i'r canlynol:
  – pwysau ychwanegol o ran costau a adnabuwyd ar gyfer 2020-21; a
  – chyllideb trawsnewid a fydd yn lleihau'r angen i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i ariannu prosiectau trawsnewidiol;
- Bydd y setliad llywodraeth leol hefyd yn lleihau'r bwlch o ran cyllid a adnabuwyd ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol yn arddangosyn 3.
- Mae'r cyngor wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad strategol o ffioedd a thaliadau, sydd wedi'i fwriadu i sicrhau bod ffioedd a thaliadau'n cael eu pennu ar sail adennill costau'n llawn lle y bo'n briodol, a bod y codiadau y cytunwyd arnynt yn cael eu cymhwyso iddynt. Mae hefyd yn amcanu at adnabod cyfleoedd newydd i godi am nwyddau a gwasanaethau. Hyd yma mae'r adolygiad wedi adnabod £0.2m yn ychwanegol o incwm ar gyfer 2020-21 a £0.1m ar gyfer blynyddoedd dilynol yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.
- Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad busnes strategol ar adennill incwm. Nod yr adolygiad hwn yw adolygu arferion adennill incwm cyfredol y Cyngor a sicrhau eu bod yn briodol, yn effeithlon ac yn cynyddu i'r eithaf yr incwm a gesglir.
- Er bod y rhaglen Pontio'r Bwlch yn darparu strategaeth ariannol fwy cynaliadwy, mae risg yn gysylltiedig ag unrhyw ddull newydd. Mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i asesu a fydd y rhaglen yn cyrraedd ei nodau ac yn cyflawni'r arbedion a adnabuwyd yn llawn a o fewn yr amserlenni a amcangyfrifwyd.

## Mae gan y Cyngor hanes diweddar o orwariant yn erbyn ei gyllideb ond mae swm y gorwariannau diwedd blwyddyn yn gostwng

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

9 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer. Mae Cyngor sy'n methu â rhagweld gwariant yn gywir a chynllunio'n gywir ar ei gyfer yn wynebu risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a allai beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

## Yr hyn a ganfuom

10 Canfuom fod gan y Cyngor hanes diweddar o orwariant yn erbyn ei gyllideb, ond bod swm y gorwariannau diwedd blwyddyn yn gostwng.

11 Daethom i'r casgliad hwn am y rheswm canlynol:

- Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi gorwario yn erbyn ei gyllideb; fodd bynnag, mae gorwariannau'n gostwng, fel a nodir yn Arddangosyn 4 isod.

### Arddangosyn 4: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant ar gyfer cyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y ddwy flynedd ddiwethaf a'r flwyddyn hyd yma yn ôl y sefyllfa ym mis Hydref 2019.

| | Cyllideb Wreiddiol y gyllideb refeniw net | Cyllideb ddiwygiedig y gyllideb refeniw net[6] | Alldro Gwirioneddol y gyllideb refeniw net | Swm y gwarged/ gorwariant ar y cyfan | Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net |
|---|---|---|---|---|---|
| 2017-18[7] | £140.5m | £144.6m | £145.3m | Gorwariant o £0.7m | Gorwariant o 0.5% |
| 2018-19 | £141.9m | £145.4m | £145.5m | Gorwariant o £0.01m | Gorwariant o 0.01% |
| 2019-20 o ran y sefyllfa ar ddiwedd mis Medi 2019[8] | £143.9m | £147.3m | £147.3m | Gorwariant o £0.007m | Gorwariant o 0.005% |

- Mae tanwariannau, gan gynnwys yn y gwasanaethau corfforaethol, wedi gwrthbwyso gorwariannau mewn meysydd eraill. Er enghraifft, yn 2018-19, fe wnaeth tanwariannau o £0.61m yn y Gwasanaethau Corfforaethol, y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau'r Economi a Gwasanaethau Cynllunio wrthbwyso gorwariannau o £0.68m yn y Gwasanaeth Addysg, Gwasanaethau'r Amgylchedd a'r Gwasanaeth Trwyddedu.
- Mae cynnydd yn nifer y lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi bod yn bwysau allweddol o ran costau dros y blynyddoedd diwethaf. Fe gyfrannodd tanwariannau yn y Gwasanaethau Oedolion yn 2018-19 at danwariant net yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn 2019-20, mae'r

[6] Y gyllideb refeniw net ddiwygiedig, yr adroddwyd arni yn adroddiadau monitro ac alldro'r Cyngor, yw ffigwr gwreiddiol y gyllideb refeniw net namyn addasiad cyfalaf ac addasiad ar gyfer pensiwn.

[7] Data 2017-18 a 2018-19 wedi'i gymryd o Adroddiadau Alldro'r Gyllideb Refeniw a gyflwynir i'r Pwyllgor Gweithredol bob blwyddyn.

[8] Data 2019-20 a gymerwyd o Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw yn ôl y sefyllfa ar 30 Medi 2019 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gweithredol ym mis Tachwedd 2019.

Cyngor yn lliniaru'r pwysau o ran costau o ganlyniad i blant sy'n derbyn gofal trwy Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy o £762k a'r manteision sy'n dod i'r amlwg yn sgîl mentrau ataliol megis y prosiectau Fy Nhîm Cymorth a Cefnogi Newid a roddwyd ar waith yn ystod 2018-19 ac yn gynnar yn 2019-20.

- Pwysau eraill o ran costau y mae disgwyl iddynt effeithio ar yr amrywiant ar ddiwedd blwyddyn 2019-20 yw:
  – costau addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal; a
  – chostau gwasanaethau gwastraff mewn perthynas â cherbydau newydd, costau uwch contractau, a llai o gyllid grant.

## Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio ond mae'n newid ei ddull i adnabod arbedion hirdymor mwy cynaliadwy

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

12 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a lle nad yw'n ofynnol i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Yr hyn a ganfuom

13 Canfuom fod gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio ond ei fod yn newid ei ddull i adnabod arbedion hirdymor mwy cynaliadwy.

14 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Hyd yma, mae dull y Cyngor o gynllunio arbedion wedi canolbwyntio ar adnabod niferoedd uchel o brosiectau effeithlonrwydd ariannol unigol yn flynyddol. Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni'r arbedion hyn.
- Mae Arddangosyn 5 yn nodi bod y Cyngor wedi cyflawni 91% o'i arbedion wedi'u cynllunio yn 2018-19.

### Arddangosyn 5: arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2018-19 fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed trwy arbedion wedi'u cynllunio yn ystod 2018-19 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd.[9]

| £3.8m | £3.5m | £0.3m | 91% |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr arbedion wedi'u cynllunio | Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd | Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd | Canran yr arbedion a gyflawnwyd |

- Roedd 65% o'r arbedion heb eu cyflawni yn 2018-19 yn ymwneud â phrosiect effeithlonrwydd ariannol nas cyflawnwyd i ostwng nifer y lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Cyflawnwyd 98% o'r arbedion wedi'u cynllunio yn 2017-18 a 100% yn 2016-17.
- Yn 2019-20, mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn cyflawni 97% (£3.3m) o gyfanswm arbedion wedi'u cynllunio o £3.4m. Mae'r mwyafrif o arbedion nas cyflawnwyd yn ymwneud ag oedi cyn gweithredu peiriannau mewn gorsaf trosglwyddo gwastraff a arweiniodd at incwm is nag a ragwelwyd o ddeunyddiau eildro.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ei ddull blynyddol o adnabod arbedion yn anghynaliadwy ac mae'n dechrau adnabod cyfleoedd ar gyfer arbedion hirdymor, cyfleoedd posibl i osgoi costau a ffrydiau refeniw newydd. Os cânt eu cyflawni, bydd y rhain yn helpu i gryfhau cynaliadwyedd ariannol y Cyngor a lleihau ei ddibyniaeth ar fynd ati'n flynyddol i adnabod arbedion er mwyn mantoli'r gyllideb.

## Mae cronfa gyffredinol y Cyngor yn gyson â'i strategaeth cronfeydd wrth gefn ac mae'r Cyngor yn cymryd camau i gynyddu lefel ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn dilyn defnydd anghynaliadwy mewn blynyddoedd blaenorol

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

15 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell

[9] Ffynhonnell: Adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gweithredol ym mis Gorffennaf 2019

cyllid bwysig i ariannu mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau hefyd. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau eu cronfeydd wrth gefn yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

## Yr hyn a ganfuom

16 Canfuom fod cronfa gyffredinol y Cyngor yn gyson â'i strategaeth cronfeydd wrth gefn a bod y Cyngor yn cymryd camau i gynyddu lefel ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn dilyn defnydd anghynaliadwy mewn blynyddoedd blaenorol.

17 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae gan y Cyngor brotocol cronfeydd wrth gefn a chaiff ei strategaeth ar gyfer cronfeydd wrth gefn ei nodi yn ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Mae hyn yn cynnwys lefel darged ar gyfer cronfeydd wrth gefn cyffredinol o 4% o'r gwariant refeniw net gwirioneddol diwethaf yr adroddwyd arno[10]. Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu cynyddu lefel gyffredinol y cronfeydd wrth gefn dros amser i gefnogi cydnerthedd ariannol y Cyngor.
- Nid oes unrhyw gynlluniau gan y Cyngor i ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i fantoli'r gyllideb flynyddol yn ystod oes y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Mae eitem arfaethedig ar gyfer hapddigwyddiadau yn y gyllideb flynyddol wedi'i bwriadu i osgoi'r angen i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer gorwariannau ac, os na fydd ei hangen, bydd yn cael ei defnyddio i gynyddu maint y gronfa wrth gefn gyffredinol.
- Mae Arddangosyn 6 isod yn nodi lefel cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor yn erbyn ei gyllideb flynyddol yn 2018-19.

[10] Ffigwr gwariant refeniw net a gymerwyd o'r ffurflen alldro refeniw statudol ddiweddaraf.


Arddangosyn 6: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol, 2018-19[11]

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2018-19 o'i gymharu â'i gyllideb refeniw net ar gyfer yr un flwyddyn.



**£141.9m**

Cyllideb Refeniw Net



**£11.7m**

Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy [12]



**8%**

Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o'r Gyllideb Refeniw Net

- Ar 31 Mawrth 2019, roedd y Cyngor yn dal £11.7m mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, a hynny'n cynnwys:
  – £5.89m yn y Gronfa Gyffredinol;
  – £5.80m ym malansau cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi defnyddiadwy.
- Mae hyn yn gynnydd o 11% o'i gymharu â 2017-18, pan oedd y Cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy o £10.5m (7% o wariant refeniw net). Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd cyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn gostwng i £9.5m erbyn diwedd 2019-20. Byddai hyn yn cyfateb i 7% o wariant refeniw net.
- Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi cymryd camau i gynyddu ei Gronfa Gyffredinol gan ddefnyddio cyfraniadau y cytunwyd arnynt fel rhan o broses pennu'r gyllideb ac o hapdaliadau. Yn ystod 2018-19 fe ychwanegodd £0.41m ac yn 2019-20 mae'n disgwyl ychwanegu £0.25m arall at y Gronfa, gan ei chynyddu i £6.14m (4.6% o wariant refeniw net). Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys cyfraniad o £0.2m at y Gronfa Gyffredinol bob blwyddyn ac yn ddiweddar rhoddodd y Cyngor gymeradwyaeth i drosglwyddo arbedion dros ben sy'n deillio o'r rhaglen Pontio'r Bwlch i gronfeydd wrth gefn.

[11] Ffynhonnell: Hunanasesiad y Cyngor a Datganiad Cyfrifon 2018-19

[12] Nid yw diffiniad y Cyngor o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n cynnwys unrhyw gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi sydd wedi'u sefydlu am resymau penodol ac na ellir eu hailaseinio'n hyblyg

## Mae’r dreth gyngor yn rhoi cyfrif am gyfran gymharol fach o incwm y Cyngor ond mae’r Cyngor yn archwilio ffyrdd o wella’i gyfraddau casglu yn ystod y flwyddyn

### Pam fod cyfraddau casglu’r dreth gyngor yn bwysig

18 Mae’r dreth gyngor yn ffynhonnell incwm allweddol i gynghorau yng Nghymru. Bydd methu â chasglu swm y dreth gyngor sy’n ddyledus i’r Cyngor yn arwain at lai o incwm. Gall hyn yn ei dro gynyddu’r pwysau ariannol ar y Cyngor a’i gwneud yn ofynnol iddo wneud arbedion ychwanegol.

### Yr hyn a ganfuom

19 Canfuom fod y dreth gyngor yn rhoi cyfrif am gyfran gymharol fach o incwm y Cyngor ond bod y Cyngor yn archwilio ffyrdd o wella’i gyfraddau casglu yn ystod y flwyddyn.

20 Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae’r ganran o gyfanswm y gyllideb refeniw gros a ariennir â’r dreth gyngor yn 2019-20 yn 19%. O’i gymharu, mae’r ganran o gyfanswm y gyllideb refeniw gros a ariennir gan Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru yn 48%.
- Fe gynyddodd y dreth gyngor 4.9% yn 2019-20 ac mae’r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn tybio y ceir codiadau blynyddol o 4% dros weddill blynyddoedd y strategaeth.
- Mae’r Cyngor yn rhagfynegi y gallai sylfaen y dreth gyngor gynyddu yn y dyfodol o ganlyniad i anheddau newydd a fydd yn cael eu hadeiladu erbyn 2023 a’r posibilrwydd o ddileu disgowntiau’r dreth gyngor ar gyfer anheddau gwag.
- Fel rhan o’i raglen Pontio’r Bwlch, mae’r Cyngor yn bwrw golwg ar gynyddu ei incwm i’r eithaf a datblygu ei weithgareddau masnachol. Os bydd yn llwyddiannus, bydd hyn yn effeithio ar y gyfran o’r gyllideb refeniw gros a ariennir â’r dreth gyngor.
- Ers 2016-17, mae cyfraddau’r Cyngor ar gyfer casglu yn ystod y flwyddyn wedi aros yn sefydlog ar ychydig islaw 94%. Mae’r Cyngor yn adolygu ei brosesau adennill a gorfodi i adnabod cyfleoedd ar gyfer gwelliannau.

Arddangosyn 7: cyfraddau casglu'r dreth gyngor

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos y ganran o'r dreth gyngor a oedd yn ddyledus a gasglwyd gan y Cyngor yn ystod 2018-19



Roedd yr arian a gasglwyd o'r Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2019 yn **£28.3m** (93.7%) o'i gymharu â debyd casgladwy o **£30.2m**[13]

## Nid oes gan y Cyngor lefelau benthyca uchel ac nid oes ganddo unrhyw fuddsoddiadau masnachol ar hyn o bryd, ond wrth iddo archwilio'i ddull yn y dyfodol lle mae gweithgarwch masnachol yn y cwestiwn dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn ystyried ac yn rheoli'r risgiau cysylltiedig

### Pam ei bod yn bwysig cynnal lefelau benthyca cynaliadwy

21 Gall benthyca fod yn ffynhonnell cyllid werthfawr, er enghraifft i ariannu prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr megis ysgolion neu ganolfannau hamdden newydd. Fodd bynnag, gall cost ad-dalu arian a fenthyciwyd gan gynnwys costau llog gael effaith hirdymor ar gyllidebau refeniw parhaus. Mae cynghorau sy'n methu â tharo cydbwysedd priodol rhwng manteision a chostau benthyca ar y naill law a'u cyllidebau refeniw cyfredol a rhagamcanol ar y llaw arall yn wynebu risg o leihau swm y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Mae benthyca i ariannu gweithgarwch masnachol yn cynnig y potensial i greu incwm ychwanegol i ariannu gwasanaethau'r cyngor; fodd bynnag, gall hefyd ddwyn risgiau sylweddol a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch masnachol.

[13] Ffynhonnell: Cyfraddau Casglu'r Dreth Gyngor yng Nghymru gan Stats Cymru: 2018-19

## Yr hyn a ganfuom

22 Canfuom nad oes gan y Cyngor lefelau benthyca uchel ac nad oes ganddo unrhyw fuddsoddiadau masnachol ar hyn o bryd, ond wrth iddo archwilio'i ddull yn y dyfodol lle mae gweithgarwch masnachol yn y cwestiwn dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn ystyried ac yn rheoli'r risgiau cysylltiedig.

23 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Roedd gan y Cyngor ddyled o £158m â oedd yn gysylltiedig â benthyciadau ar ddiwedd 2018-19; mae hyn o fewn y terfyn awdurdodedig ar gyfer dyled allanol a bennwyd gan y Cyngor.
- Mae'r Cyngor yn defnyddio dull risg isel lle mae benthyca a buddsoddi yn y cwestiwn. Mae'r Strategaeth Buddsoddi yn blaenoriaethu mesurau diogelu cyfalaf a hylifedd dros gynyddu i'r eithaf adenillion ar fuddsoddiadau. Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn cyfyngu ar gysylltiad â benthyciadau llog cyfradd amrywiol ac yn pennu terfynau ar gyfer strwythur aeddfedrwydd benthyciadau. Mae hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i'r Cyngor ynghylch ei daliadau llog ac yn ei alluogi i reoli cyfnod aeddfedu benthyciadau.
- Roedd llog a oedd yn daladwy ar fenthyciadau'n gyfanswm o £4.4m yn 2018-19. Cafodd £0.6m pellach ei neilltuo ar gyfer prif ad-daliadau ar fenthyciadau allanol fel rhan o ddarpariaeth isafswm refeniw'r Cyngor. Nid yw benthyciadau'r Cyngor yn cael eu defnyddio i ariannu buddsoddiadau masnachol.


## Arddangosyn 8: Arian a fenthyciwyd gan y Cyngor

Mae'r arddangosyn isod yn dangos cyfanswm yr arian y mae'r Cyngor wedi'i fenthyca i ariannu buddsoddiadau masnachol, yn ogystal â chost yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor fel cyfran o'i gyllideb refeniw net.



**£0m**

Swm y benthyciadau i ariannu buddsoddiadau masnachol[14]



**3.5%**

Cost cyfanswm y benthyciadau fel cyfran o'r gyllideb refeniw net 2018-19[15]

[14] Ffynhonnell: Hunanasesiad y Cyngor

[15] Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon 2018-19 – llog sy'n daladwy a'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw. Adroddiad ar Gyllideb Refeniw 2018/2019 i'r Cyngor, Chwefror 2018 – cyllideb refeniw net

- Fel rhan o’r rhaglen Pontio’r Bwlch, mae’r Cyngor yn archwilio’i ddull yn y dyfodol lle mae buddsoddiadau a gweithgarwch masnachol yn y cwestiwn. Bydd adolygiad busnes strategol yn ceisio adnabod cyfleoedd masnachol a buddsoddi posibl. Wrth ddatblygu golygwedd fwy masnachol, dylai’r Cyngor sicrhau ei fod yn rheoli’r risgiau cysylltiedig.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru